**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 10 MAWRTH 2025**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Cenwyn ap Tomos, Beti Williams, Sian Cwper, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Glyn Griffiths

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 6 Ionawr 2025.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 6 Ionawr 2025.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

## 5. Pryderon gan Gwilym Evans am faterion yn yr ardal

Mynychodd Gwilym Evans fel unigolyn oedd am godi'r materion canlynol:-

### Arwydd Pont Traeth

Codwyd pryder fod yr arwyddion ger Pont y Traeth wrth groesi'r rheilffordd yn gamarweiniol. Mae yna arwydd STOP ar y ffordd yn union cyn croesi'r rheilffordd, ond mae'r arwydd ar y polyn gerllaw yn dweud nad oes ond angen aros pan fo'r goleuadau'n fflachio. Y farn felly oedd bod yr arwyddion yng ngham ddweud ei gilydd.

Cytunwyd i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ar y mater.

### Enw Pont Gwernydd / Pont Garreg-Hylldrem

Mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio'r enw Pont Garreg-Hylldrem ar gyfer y bont ger Tan Lan, a dyna sydd ar y mapiau OS. Fodd bynnag, mae yna ddadl mai'r enw gwreiddiol lleol yw Pont Gwernydd.

**Defnyddio’r enw Llanfrothen yn lle Garreg**

Mae’r enw Llanfrothen yn cael ei gamddefnyddio, ac yn aml iawn pentref Garreg yn cael ei ddisgrifio fel Llanfrothen.

Cytunwyd i geisio arddel cysondeb o ran defnydd y cyngor cymuned o’r enwau, a hybu'r gymuned leol i wneud yr un peth.

## 6. Materion yn codi o’r Cofnodion

### 6.1 Y Ganolfan

Nod yw’r Crynwyr am ddefnyddio’r Ganolfan fel man cyfarfod, a hynny’n bennaf oherwydd eu bod yn dymuno lleoliad mwy hygyrch.

### 6.2 Goryrru Garreg a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Mae Heddwas o Orsaf Porthmadog wedi bod yn ymweld â Garreg o dro i dro, er mwyn monitro unrhyw oryrru.

Ni chafwyd neb yn goryrru, oherwydd mae gyrwyr yn dueddol o arafu wrth weld y cerbyd Heddlu.

Bydd y swyddog yn dychwelyd o dro i dro dros yr wythnosau nesaf.

### 6.3 Mynwent Tan Lan

Mae mochyn daear wedi bod yn tyrchu tywarchen ar ben bedd arall. Unwaith eto tywarchen newydd yw hon, ac mae’n amlwg mai ond tywyrch newydd sydd yn denu’r moch daear.

Gofynnwyd i’r Clerc roi gwybod i’r ymgymerwyr lleol am y broblem ac awgrymu fod y gwair ar dop beddi newydd yn cael ei adael i dyfu’n naturiol yn hytrach na gosod tywarchen newydd, er mwyn osgoi’r broblem.

Yn y cyfamser, bydd camau yn cael eu cymryd er mwyn cau unrhyw fylchau o gwmpas y fynwent, ond rhaid cydnabod na ellir gwarantu gant y cant y gellir rhwystro moch daear gael mynediad i’r fynwent.

### 6.4 13 Garreg Frech

Ymatebwyd i lythyr Phennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd, a dderbyniwyd ddiwedd 2024. Ni chafwyd ymateb, er gwaethaf gofyn am ymateb erbyn cyfarfod mis Mawrth.

Cytunwyd i gysylltu unwaith eto a gofyn am ymateb erbyn diwedd Mawrth.

Yn yr un modd, ni chafwyd ymateb i gais y cyngor cymuned i adran gyllid Cyngor Gwynedd am ddiweddariad ar y camau a gymerwyd i gychwyn gweithgareddau cyfreithiol a chael gorchymyn arwystl ar yr eiddo.

Rhaid bydd cysylltu efo Cyngor Gwynedd unwaith eto er mwyn ceisio ymateb.

**6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Mae'n bosibl y bydd y gysgodfan fws yn gymwys am arian o dan grant Cronfa Gymunedol Eryri. Fodd bynnag, fydd y gronfa ddim yn agor tan tua mis Mai/Mehefin, ac ni ellir gwneud cais am grant os yw'r gwaith wedi dechrau.

Bydd yn rhaid felly gohirio'r gwaith hyd nes y bydd cais wedi cael ei wneud i'r gronfa

**6.6 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Bu i'r Cynghorydd Nia Povey gerdded y llwybr efo arbenigwyr ac fe ellir cadarnhau nad oes yna rwystrau bioamrywiaeth i'r llwybr.

Cafwyd hefyd adroddiad gan Beiriannydd Sifil yn crynhoi nodweddion unrhyw lwybr posibl, ac yn argymell llwybrau byrrach posibl. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r rheini

Adroddodd Y Cynghorydd June Jones fod Cabinet Cyngor Gwynedd yn trafod Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn fuan, a bydd yn holi a fyddai cynllun y llwybr yn rhywbeth fyddai'n dod o fewn y cynllun yna.

**6.7 Casglu Arian Diffribliwyr**

Nid oedd Y Cynghorydd Glyn Griffiths yn bresennol i fedru adrodd a gasglwyd unrhyw arian yn y blwch ym maes parcio Croesor.

Mae yna ychydig o arian wedi dod i mewn drwy daliadau uniongyrchol Sumup dros fis Ionawr a Chwefror.

**6.8 Coeden Eucalyptus B4410 Garreg i Rhyd**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn edrych ar y safle. Nid ydynt o'r farn fod angen sylw brys, ond byddant yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**7. Materion Ariannol**

**7.1** Cyflog Clerc Ionawr 2025 £239.72
TWE £59.80

**7.2** Cyflog Clerc Chwefror 2025 £239.72
TWE £59.80

**7.3** Costau banc hyd at 27 Ionawr 2025 £8.00

Costau banc hyd at 27 Chwefror 2025 £8.00

**7.4** yu Energy 8 Ionawr - £18.57

yu Energy 3 Chwefror - £25.66

**7.5** Ad-dalu'r Cynghorydd Nia Povey Hydrangea Mynwent Tan Lan - £17.97

**7.6** Gwasanaethau Tir a Choed Anfoneb 572, 2 Chwefror 2025, Chwistrellu Japanese Knotweed - £120.00

**7.7** Archwilio Cymru, Archwiliad 2022/23 - £200.00

Archwilio Cymru, Archwiliad 2023/24 - £200.00

**7.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Ionawr 2025 - £5.00

**7.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Ionawr 2025 - £3.00

**7.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Ionawr 2025 - £4.00

**7.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Ionawr 2025 - £5.00

**7.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 30 Ionawr 2025 - £2.00

**7.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Chwefror 2025 - £3.00

**7.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Chwefror 2025 - £5.00

**7.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Chwefror 2025 - £11.00

**7.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Chwefror 2025 - £4.00

**7.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Chwefror 2025 - £10.00

**7.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Chwefror 2025 - £1.00

**7.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 24 Chwefror 2025 - £1.00

**7.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 25 Chwefror 20245 - £3.00

**7.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Mawrth 2025 - £7.00

**7.22** Balans yn y prif gyfrif 4 Mawrth 2025 £11,277.03

**7.23** Balans yn y cyfrif cadw 4 Mawrth 2025 £24,724.00

**8. Gohebiaeth**

- Cefnogi Ysgol Ddeintyddol ym Mangor

Cytunwyd i gefnogi ymgyrch Siân Gwenllian AS i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Nia Povey

- Arolwg Gwynedd 2025

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn y cyhoedd am yr hyn sy'n bwysig i drigolion a chymunedau'r sir.

Cytunwyd y medrai aelodau gwblhau'r holiadur fel unigolion.

**9. Cynllunio**

**Cais cynllunio NP5/68/19C, Drum House, codi porth blaen, estyniad cefn llawr cyntaf to fflat ac estyniad ochr gyda balconi.**

Mae'r adeilad yma yn un hanesyddol, ac angen parchu hyn wrth wneud unrhyw newidiadau iddo.

Nid oedd cymeradwyaeth iddo gael ei droi yn llety gwyliau

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

**10. Materion Eraill**

**10.1 Rhoddion Ariannol**

Cytunwyd i roi'r rhoddion ariannol canlynol:-

Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £50

Yr Wylan £50

Ysgol Y Garreg £50

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

**10.2 Cynllun Bioamrywiaeth**

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Bet Williams

**10.3 Cynllun Hyfforddiant**

Cymeradwywyd y Cynllun Hyfforddiant

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

**10.4 Cofrestr Asedau**

Cymeradwywyd y Gofrestr Asedau gydag un newid, sef tynnu'r fainc sydd wedi ei nodi wedi ei lleoli yng Ngarreg Frech o'r gofrestr.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Bet Williams

**10.5 Cofrestr Risg**

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg

**Cynnig:** Siân Cwper

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

**10.6 Cod Ymddygiad**

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

**10.7 Rheolau Ariannol**

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

**10.8 Rheolau Sefydlog**

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Siân Cwper

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 12 Mai 2025 am 7 yr hwyr**